Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 9fed Gorffennaf, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Christopher Parish,
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau: Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Hugh Towns, Cyng Julia Jones.

Cof 101/ Gorffennaf/ 08 Anfonebau i'w talu.

WCVA (Gweinyddiaeth Mehefin 2008)	£	35.54
WCVA (Cyflogau Mehefin 2008)	£	167.40
Morgan & Morgan (ffon gof 4GB)	£	16.45
Ar Y Gair (cyfieithu hysbyseb)	£	1.15

Penderfynwyd y dylid talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 102 / Gorffennaf/ 08 Incwm Dderbyniwyd Mehefin 2008

Arian /sieciau (Raffl elusennol cinio'r Maer)	£	582.10
Arian/sieciau (Gwesteion Cinio'r Maer)	£	175.00
Llog ar y Bond Llog Uchel	£	523.01
Llog cyfrif cyfredol	£	1.54
Llog cyfrif cynilo	£	81.89

Cof 103 / Gorffennaf / 08 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (30. 6.08)	£	6,777.31
LTC CYFRIF CYNILO (30.6.08)	£	9,341.29
BOND LLOG UCHEL (llog i'w ychwanegu)	£	50,000.00
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.6.08)	£	2,567.22

Gofynnodd y Maer am gopi o ddatganiadau ar gyfrif y Maer. Derbyniwyd hwn

Cof 104 / Gorffennaf / 08 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad ar y Gyllideb Mehefin 2008

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad diweddaraf. Derbyniwyd hwn.

2. **Rhagolwg Cyllidebol Tair Blynedd**
Trafodwyd y rhagolwg gan y Cynghorwyr, gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid i'w adolygu o ganlyniad i'r prosiectau fydd yn cael eu cefnogi yn ystod 2008-9. Gofynnwyd i'r Clerc ddychwelyd y Ceisiadau am Rodd Ariannol i'r Swyddog Cyllid i'w ffeilio.

3. Oriau Cyflogaeth y Swyddogion. Dymuna'r Maer gofnodi diolch y Cyngor i'r Swyddog Technegol am yr holl waith caled ychwanegol yr oedd wedi'i wneud yn ystod y gwaith cynllunio ar gyfer Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan gan sicrhau fod y digwyddiad yn llwyddiant mawr. Gofynnwyd i Mr Davies roi manylion yr oriau ychwanegol a weithiwyd ganddo.
Gan fod Mr Davies wedi dioddef o ganlyniad i ddamwain gartref yn ystod y mis blaenorol, gofynnodd y Cadeirydd, Cyng Ros Bellamy i'r Swyddog Cyllid ddod o hyd i'r gweithdrefnau cywir ar gyfer amser o'r gwaith o ganlyniad i salwch.

4. Adroddodd y Cyng Ros Bellamy ei bod wedi cwblhau'r archwiliadau Ariannol ar gyfer y cyfnod Ebrill – Mehefin 2008. Archwiliwyd cyfanswm o 7 siec, ac roedd pob un ohonynt yn gywir.

5. Gofynnodd y Cyng Ros Bellamy bod siec 101215 am £25 i'w gofnodi yn y cofnodion fel un a gyflwynwyd i enillydd gwisg Edwardaidd Parc Penlan sef Mrs Lorna Rideout, a gyflwynodd y siec i'r elusen Tenovus.

6. Adroddodd y Swyddog Cyllid bod siec wedi'i chyflwyno i'r Banc y tu allan i'r dyddiad, er bod banc y derbynnydd a banc y Cyngor wedi'i derbyn i'w thalu. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Cyllid ysgrifennu i gwyno i'r ddau fanc sef Lloyds a HSBC

7. Adroddodd y Swyddog Technegol bod gwaith trwsio i'w wneud ar system gwres Canolog Neuadd y Sir. Mae'r costau fel a ganlyn:

Pecyn pwmp â dau ynddo	£ 900
Solenoid nwy	£ 150
Falf atal brys	£ 240
Uned falf draenio diogelwch	£ 150
Amcangyfrif o gyfanswm y gost	£ 1,440

Yn ogystal y Tâl Gwasanaeth Blynyddol oedd £ 105.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid caniatáu gwneud y gwaith hwn am y pris yr amcangyfrifwyd. Eiliwyd gan y Cyng Chalotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Swyddog Technegol y byddai'n cwrdd â Mr Ken Murphy o Cambria a Mr Sams, contractwr trydan er mwyn datrys y namau trydan.

8. Agorwyd y dogfennau tendr i wneud gwelliannau i Neuadd y Sir ar gyfer

a) Gwaith i wella'r ardal o flaen yr adeilad

Prospect Construction	£ 6,930 eithrio TAW
D. Cledwyn & SM Moses	£ 6,803 eithrio TAW

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi'r cytundeb i Cledwyn & Moses. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

b) Gwelliannau i fannau tu fewn i'r Neuadd

Prospect Construction	£ 2,010 eithrio TAW
D.Cledwyn & SM Moses	£ 2,365 eithrio TAW.

Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish y dylid rhoi'r cytundeb i Prospect Construction. Roedd pawb o blaid.

9. Treialon Cŵn Defaid y Byd.
Dywedodd y Clerc bod dyfynbris wedi'i dderbyn oddi wrth Popty Bach y Wlad am ddarparu bwffe yn nerbyniad y Cyngor i gystadleuwyr i'w gynnal ar Fedi'r 10fed yn y Neuadd Ddinesig. Mae'r Maer wedi dod o hyd i amcanbris ar gyfer cyfanswm y parêd, ac addurno'r Dref ar gyfer y derbyniad. Gwnaeth argymhelliad i'w ddwyn o flaen o Cyngor Llawn hynny yw bod £2000 yn ychwanegol i'w rhoi er mwyn talu am dreuliau'r Cyngor ar gyfer y digwyddiad hwn. Roedd pawb o blaid.

Cof 105 / Gorffennaf/ 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. Argraffwyr Lewis – Dyfynbris am ail-argraffu rhaglenni Parc Penlan.
Roedd y pwyllgor yn siomedig gyda'r costau uchel oedd ynghlwm wrth hwn. Gofynnywd i'r Clerc gysylltu â hwy eto er mwyn gofyn am eglurhad am y gost.

Cof 106 / Gorffennaf/ 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm.